# Canllawiau Catalogio

*Mae'r canllawiau yma i'ch helpu i ddisgrifio'ch eitemau mor drwyadl â phosib. Darllenwch drwyddynt os gwelwch yn dda, fel y bydd pawb sy'n ymweld â'r wefan yn gallu mwynhau'r eitemau sydd wedi cael eu cyfrannu gennych.*

**Teitl:** Dylai hwn ateb y cwestiynau Pwy, Beth, Lle, Pryd am yr eitem dan sylw. Ceisiwch ei wneud mor ddisgrifiadol â phosib, fel bod defnyddwyr eraill yn gallu dod o hyd iddo'n hawdd.

**Disgrifiad:** Rhowch fwy o fanylion sydd gennych am yr eitem. Dylid cynnwys enwau pobl sy'n ymddangos mewn llun, os gwyddoch chi pwy ydyn nhw, a'u lleoliad yn y llun e.e. o'r chwith i'r dde.

**Y dyddiad yn fras:** Rhowch ddyddiad creu'r eitem hyd y gwyddoch. Rhowch y mis hefyd os ydy'r wybodaeth honno ganddoch chi, ond peidiwch â phoeni os nad yw.

**Lleoliad:** Rhowch enw unrhyw leoedd, fel enw'r dref neu'r pentref sy'n berthnasol i'r eitem. Bydd hyn yn cynnwys Dolgellau yn aml iawn. Rhowch anhysbys os nad ydy'r wybodaeth ar gael.

**Sir:** Dewiswch pa sir sydd fwyaf perthnasol i'r eitem e.e. Meirionnydd.

**Hawlfraint:** Llenwch y darn hwn mor gywir ag sy'n bosib. Mae Hawlfraint yn rhoi i'r perchennog hawliau dros y defnydd a wneir o'r eitem. Darllenwch y canllawiau hawlfraint am ragor o wybodaeth am hyn.

**Crëwr:** Crëwr ffotograff ydy'r person gymerodd y llun, a chrëwr testun ydy'r awdur. Os mai llun o ddogfen ysgrifenedig ydy'ch delwedd chi, fel dyddiadur er enghraifft, rhowch enw'r person a grëodd y ddogfen yn y copi caled. Os na wyddoch pwy oedd y crëwr, rhowch anhysbys - peidiwch â'i adael yn wag. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau hawlfraint.

**Perchennog (os yw'n wahanol):** Rhowch enw daliwr hawlfraint yr eitem os yw'n wahanol i'w grëwr. Gweler canllawiau hawlfraint.

**Thema:** Ystyriwch pa thema fyddai'n ffitio orau. Os hoffech chi, gallech ddewis mwy nag un drwy ddal un ai 'Control' neu 'Command' i lawr ar yr allweddell.

**Tagiau:** Rhowch unrhyw eiriau allweddol sy'n berthnasol i'r eitem e.e. ar gyfer ffotograff sy'n darlunio picnic ar lan y môr, y tagiau fyddai: picnic, ar lan y môr.



